# Sut rydym yn defnyddio'ch data i wella llawdriniaeth ar y geg a llawdriniaeth yr ên a'r wyneb

**Ansawdd a Chanlyniadau Llawdriniaeth ar y Geg a Llawdriniaeth yr Ên a'r Wyneb (QOMS)**

**Taflen Gwybodaeth i Gleifion**

**Darllenwch y daflen hon yn ofalus. Mae'n esbonio pwy ydym ni, beth rydym ni'n ei wneud a sut rydym yn trin eich gwybodaeth i sicrhau eich cyfrinachedd a'ch cadw'n ddienw.**

Mae uned y geg a'r ên a'r wyneb yn yr ysbyty hwn yn cymryd rhan yn y prosiect 'Ansawdd a Chanlyniadau Llawdriniaeth ar y Geg a Llawdriniaeth yr Ên a'r Wyneb (QOMS), ac mae angen i ni gasglu rhywfaint o ddata am gleifion.

## Beth yw QOMS?

Prosiect **cenedlaethol** yw QOMS sy'n ceisio gwella ansawdd gofal a gwasanaethau mewn adrannau llawdriniaeth ar y geg a llawdriniaeth yr ên a'r wyneb ar gyfer cleifion yn y Deyrnas Unedig yn y dyfodol. I wneud hyn, mae angen i ni weld sut beth yw'r gofal nawr, felly rydym wedi gofyn i'ch llawfeddyg gyflwyno rhywfaint o ddata am eich llawdriniaeth a'ch gofal dilynol. Bydd hyn yn ein galluogi i gymharu ansawdd gofal mewn ysbytai yn y Deyrnas Unedig. Gelwir y broses hon yn "archwiliad".

## Pa wybodaeth fydd yn cael ei chasglu amdanaf a pham?

Er mwyn i ni allu cael darlun cywir o ofal y geg a'r ên a'r wyneb, efallai byddwn yn casglu gwybodaeth am:

- Eich cyflwr meddygol a'ch triniaeth er mwyn mesur ansawdd gofal,
- Eich Rhif GIG/Ysbyty, eich dyddiad geni a'ch rhywedd er mwyn eich adnabod yn gywir ar draws gwahanol gronfeydd data ysbyty ac ar hyd amser,
- Eich cod post er mwyn sicrhau y gallwn gymharu ysbytai sydd â nodweddion tebyg (byddwn yn cadw codau post am flwyddyn ar y mwyaf).

## A yw fy ngwybodaeth yn ddiogel?

**Ydy**, mae eich gwybodaeth yn ddiogel. Mae'n cael ei chadw mewn cronfa ddata ddiogel, yng Nghanolfan Ymchwil Canser y DU Barts ym Mhrifysgol y Frenhines Mary, Llundain. Mae rheolau llym ar waith i sicrhau ei bod yn cael ei dal yn unol â safonau rhyngwladol a safonau'r Deyrnas Unedig ar gyfer diogelwch data. Mae mynediad at eich gwybodaeth bersonol wedi'i chyfyngu i'ch tîm clinigol, a fyddai'n meddu arni sut bynnag, a nifer gyfyngedig o staff yn ysbyty Barts a'r tîm QOMS, y mae angen iddynt ddadansoddi'r data.

## Beth fydd yn digwydd i'm gwybodaeth?

- Mae data'n cael ei ddadansoddi unwaith y flwyddyn o leiaf i gymharu ansawdd gofal ar draws ysbytai.
- Ni fydd eich enw **byth yn ymddangos** mewn unrhyw gyhoeddiad ynglŷn â'r prosiect. Bydd yn **amhosibl** i chi gael eich adnabod o'r dadansoddiad hwn oherwydd byddwn yn cyfuno'ch data â data llawer o gleifion eraill.
- Hefyd, ni fyddwn **byth** yn rhannu gwybodaeth a all eich adnabod gydag unrhyw sefydliadau eraill am unrhyw resymau heblaw am gysylltu setiau data â phartneriaid cymeradwy.

- Byddwn yn cadw'ch gwybodaeth bersonol am 4 blynedd ar ôl gorffen casglu data dilynol. Wedi hynny, byddwn naill ai'n dileu'r data personol, gan gadw'r data am eich gofal yn unig, neu'n dileu'r cyfan.

## Pam na ofynnwyd am fy nghaniatâd i ddefnyddio fy ngwybodaeth?

Rydym wedi cael cymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd i storio a defnyddio gwybodaeth am gleifion heb gydsyniad, o dan Adran 251. Mae rhagor o wybodaeth am Adran 251 ar gael yma: http://www.hra.nhs.uk/about-the-hra/ourcommittees/section-251/what-is-section-251/.

## Pwy arall sydd wedi adolygu QOMS?

Mae QOMS hefyd wedi cael ei adolygu gan wirfoddolwyr grŵp Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd y prosiect (sy'n cynnwys cleifion, gofalwyr a chynrychiolwyr lleyg) a chan yr ysbyty hwn i sicrhau ein bod yn dilyn eu polisïau diogelu data.

## A oes rhaid i mi gymryd rhan yn QOMS?

**Nac oes**, does dim rhaid i chi gymryd rhan. Mae cyfranogiad yn **gwbl wirfoddol**. Gallwch newid eich meddwl **unrhyw bryd** heb effeithio ar lefel y gofal a dderbyniwch.

- Os ydych yn fodlon i'ch data gael ei ddefnyddio, does dim rhaid i chi wneud unrhyw beth.
- Os **nad ydych** eisiau i'ch gwybodaeth gael ei chasglu ar gyfer y prosiect hwn, rhowch wybod i aelod o'ch tîm y geg a'r ên a'r wyneb neu'r tîm QOMS (rhagor o fanylion isod).

## Pwy sy'n trefnu ac yn cyllido QOMS?

Mae QOMS yn cael ei arwain a'i gyllido gan Gymdeithas Brydeinig Llawfeddygon y Geg a'r Ên a'r Wyneb (BAOMS) a Saving Faces – y Sefydliad Ymchwil Llawfeddygaeth Wynebol. Eu rhifau Elusen Gofrestredig unigol yw 1062067 a 1081214. Y rheolwr data sy'n gyfrifol am ddiogelu'ch gwybodaeth ar gyfer y prosiect hwn yw BAOMS.

## Beth ddylwn i ei wneud os ydw i'n credu nad yw fy nata wedi cael ei ddefnyddio'n iawn?

Os oes gennych bryderon am y ffordd mae eich data personol yn cael ei drin, rhowch wybod i'ch llawfeddyg neu aelod o'i dîm, neu cysylltwch â thîm y prosiect QOMS. Os ydych yn credu bod y mater yn ddigon difrifol, mae gennych hefyd yr hawl i gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef yr awdurdod yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am y gyfraith diogelu data. Gellir cysylltu â nhw trwy ffonio 0303 123 1113 neu drwy eu gwefan https://ico.org.uk/concerns/.

## Manylion cyswllt

Tîm y Prosiect QOMS: BAOMS | Coleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr, 35/43 Lincoln's Inn Fields, Llundain WC2A 3PE | Rhif ffôn: +44(0) 207 405 8074 | Gwefan: http://bit.ly/qoms-at-baoms

E-bost: qoms@baoms.org.uk

I optio allan, ffoniwch ni neu anfonwch neges e-bost atom, gan roi "Optio allan" yn y llinell bwnc.